Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Panel Cyllid, 22/06/21

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr W.L.Davies (Cadeirydd), M.Sarnacki, W.Tudor Owen, S.Sage, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

---

1. **Cadeirydd**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd W.L.Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar gyfer 2021/22 (unfrydol).

2. **Is-gadeirydd**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd I.C.Thomas yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar gyfer 2021/22 (unfrydol).

3. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd C.Larsen.

4. **Datgan Buddiant Personol**

Y Cynghorydd R.Thomas – eitem 6(iii)
Y Cynghorydd W.Tudor Owen – eitem 6(vi)
Y Cynghorydd C.Williams – eitem 6(vi)
Sion Wyn Evans, y Clerc – eitem 8(b)

Gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

5. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)**

Dim.

6. **Ceisiadau Ariannol**

Penderfynwyd ar y taliadau canlynol (unfrydol):

Enw		**Swm**	**Talu allan o**
(i)	Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai	£50	Pot “Arall”
(ii)	Mynwent Llanbeblig	£1,000, ar yr amod fod	Cyfrifon

		rhestr fanwl o'r penawdau gwariant yn cael ei anfon i mewn	
(iii)	Porthi Pawb / Porthi Plantos (wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Cyllid gan fod mwyafrif aelodau'r panel grantiau covid wedi gorfod datgan diddordeb)	Ar yr amod fod "receipts" yn cael eu hanfon i mewn, y dylid talu: Ward Cadnant = £500; Ward Menai = £500; Ward Peblig = £500; Ward Seiont = £500.	Cronfa Argyfwng
(iv)	Radio Ysbyty Gwynedd	Gohiriwyd gwneud penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf, gan nad oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law. £50	 Pot "Arall"
(v)	Ambiwlans Awyr Cymru	Gohiriwyd gwneud penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf, gan nad oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law. £100	 Pot "Arall"
(vi)	Ysgol Gynradd Maesincla	£500	Pot "Arall"

7. Cyflenwad Trydan

Yn unol â phenderfyniad y Cyngor Llawn, gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried gohebiaeth gan Business Utility Renewals yn cynnig opsiynau ar gyfer cyflenwad trydan Adeilad yr Institiwt.

Penderfynwyd gohirio gwneud penderfyniad ar hyn o bryd, a dirprwyo'r hawl i'r Maer, Clerc a Dirprwy Glerc i edrych ar opsiynau fel Dua l Fuel (unfrydol).

8. Materion Cyflogaeth

Mae'r eitem yma wedi ei heithrio.

9. Cytundeb Llungopïo

Mae'r eitem yma wedi ei heithrio.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.40 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____